

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G037
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER)	Rhifyn	1
		Dyddiad	Gorffennaf 2022
		Tudalen	1 o 11

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnig arweiniad mewn perthynas â sut y bydd Prifysgol Aberystwyth yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER) 1998. Mae'r canllaw'n berthnasol i staff, myfyrwyr, contractwyr ac ymwelwyr sy'n rheoli gweithrediadau codi.

Nid yw'r ddogfen yn ystyried y gofynion ar gyfer codi a chario. Mae'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau hyn i gyflogwyr sicrhau bod gweithrediadau codi a gyflawnir fel rhan o'u gweithrediadau dyddiol yn cael eu gwneud heb risgiau i iechyd a diogelwch ac nad yw offer codi a ddefnyddir yn y gweithle'n peri risg.

Pan gaiff offer codi ei ddefnyddio ar dir y Brifysgol ac mewn ardaloedd dan reolaeth y Brifysgol rhaid iddo fod:

- yn ddigon cryf, sefydlog ac addas ar gyfer y defnydd arfaethedig, fel y bydd unrhyw lwyth a godir neu a ostyngir ac unrhyw atodion a ddefnyddir hefyd.
- wedi'i osod a'i weithredu mewn modd sy'n atal y risg o anaf.
- wedi'i farcio'n briodol lle caiff offer o'r fath ei ddefnyddio i godi pobl a bod yn ddiogel at ddiben o'r fath.
- wedi'i archwilio'n drylwyr cyn bod offer codi yn cael ei roi ar waith am y tro cyntaf
- wedi'i archwilio'n drylwyr yn gyfnodol gan unigolyn cymwys yn unol â gofynion y rheoliadau.

Diffiniadau

Beth yw Offer Codi?

Offer Codi yw unrhyw offer gwaith ar gyfer codi a gostwng llwythi, ac mae'n cynnwys unrhyw ategolion a ddefnyddir i wneud hynny (fel ategolion i gynnal, gosod neu angori'r offer). Bydd hyn yn cynnwys y canlynol, ond ni fydd yn gyfyngedig iddynt:

- craeniau
- tryciau codi ac offer trin telesgopig; tryciau paled sy'n codi'n uchel, â llaw a phweredig, sydd â'r gallu i godi'r ffyrdd dros 300mm;
- lifftiau nwyddau neu lifftiau teithwyr,
- systemau syml fel rhaff a phwll a ddefnyddir i godi bwced o sment ar safle adeiladu, hoist safle adeiladu, olwyn gin, neu lifft lestri mewn bwyty neu westy;
- lifftiau tynnu; offer codi magnetig a gwactod;
- hoist archwilio cerbyd;
- lifft siswrn neu lwyfan gwaith godi symudol (MEWP);
- rhaffau a ddefnyddir ar gyfer dringo neu osod gwaith yn ystod coedyddiaeth, tyrau dringo telegyfathrebu ac archwilio strwythur wyneb craig neu strwythur allanol adeilad;
- system storio ac adalw awtomatig;
- llwythwr pen blaen ar dractor a ddefnyddir ar gyfer codi a gostwng llwythi fel byrnau gwair;
- cloddiwr (neu beiriant arall sy'n symud pridd) a addaswyd i gael ei ddefnyddio ar gyfer codi yn defnyddio atodion codi (e.e. ffyrdd, crafangau, magedau codi), ond nid pan gânt eu defnyddio ar gyfer gweithrediadau symud pridd arferol;
- hoist neu sling a ddefnyddir i godi pobl, er enghraifft o wely neu fath;

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G037
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER)	Rhifyn	1
		Dyddiad	Gorffennaf 2022
		Tudalen	2 o 11


- craen llwytho a osodwyd ar lori e.e. i godi biniau ar gyfer dyletswyddau ddanfon;
- braich llwytho cerbyd ysbwriel e.e. i godi biniau ar gyfer tipio;
- cerbyd trawsgludo ceir neu offer adfer cerbyd;
- cerbyd casglu sgip;
- lifft ôl cerbyd.

Bydd ategolion codi (a elwir yn daclau codi) yn cynnwys eitemau fel y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- sling,
- bollt ddolen;
- cadwyn;
- rhaff
- gefynnau;
- crafangau;
- maged;
- codwr gwactod;
- fforc craen;
- trawst a lledaenydd codi

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G037
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER)	Rhifyn	1
		Dyddiad	Gorffennaf 2022
		Tudalen	3 o 11

Figure 1 Is my equipment subject to LOLER?



Os ydych chi'n ateb 'ydy' i gwestiwn 1 ac unrhyw rai o'r opsiynau yng ngholofn 2 a chwestiwn 3, mae LOLER yn debygol o fod yn berthnasol i'ch offer.

Os ydych chi wedi ateb 'na' i gwestiwn 1, mae'n bosibl fod gennych chi ddyletswyddau o hyd dan adran 3 neu 4 o'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i sicrhau diogelwch defnyddwyr.

Os ydych chi wedi ateb 'na' i bob opsiwn yng ngholofn 2 a/neu gwestiwn 3, mae'n bosibl y bydd eich offer yn dal i fod angen ei archwilio a'i gynnal dan Reoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998 (PUWER).

Cyfrifoldebau

Tim Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd

- Bydd y Tim Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn monitro ac yn adolygu'r ddogfen hon yn rheolaidd. Bydd hefyd yn gyfrifol am hysbysu am ddigwyddiadau dan RIDDOR.

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G037
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER)	Rhifyn	1
		Dyddiad	Gorffennaf 2022
		Tudalen	4 o 11

Cyfadrannau a Chyfarwyddiaethau (cydlynir gan Reolwyr Cyfadrannau neu Benaethiaid Adrannau Gwasanaeth)

- Rhaid nodi unrhyw offer codi a gweithrediadau codi a chysylltu â Rheolwr Cydymffurfio PA ar gyfer cynnal a chadw
- Sicrhau bod offer mewn perchnogaeth 'leol' yn cael ei archwilio a'i gynnal a'i gadw'n rheolaidd; gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei gosod ar y Gofrestr.
- Dynodi Personau Cymwys – h.y. Goruchwylwyr codi.
- Rhaid cynnal asesiadau risg ar gyfer pob gwaith codi; efallai y bydd angen Gweithdrefn Gweithredu Safonol neu Gynllun codi, ac aseinio goruchwylwyr i dasgau dynodedig.
- Sicrhau bod defnyddwyr offer yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol (fel bo angen)

Defnyddwyr: Staff, Myfyrwyr, Contractwyr ac Ymwelwyr

Rhaid sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw asesiad risg, hyfforddiant a Gweithdrefn Gweithredu Safonol – fel y cyfarwyddir gan y Goruchwylwr Codi (fel bo'n briodol)

- bod unrhyw weithrediadau codi yn cael eu cynllunio, goruchwilio a chyflawni gan unigolyn cymwys neu fel codiad contract llawn mewn modd diogel
- bod unrhyw asesiadau risg yn seiliedig ar weithgaredd cyffredinol yn ystyried risgiau sy'n codi o weithrediadau'n cynnwys offer codi fel bo'n briodol a'u bod yn cael eu hasesu gyda mesurau rheoli addas yn cael eu cyflwyno. Ceir enghreifftiau o Asesiadau Risg a thempled asesu risg yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/risk-assessment/>
- bod gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant addas yn cael eu rhoi i ddefnyddwyr offer codi a goruchwylwyr gweithrediadau codi a'u bod yn gymwys i gyflawni'r tasgau hynny
- bod hyfforddiant penodol yn seiliedig ar offer yn cael ei ddarparu i'r holl ddefnyddwyr offer codi lle bo angen
- bod yr holl staff perthnasol wedi mynychu hyfforddiant 'Ymwybyddiaeth Gweithrediadau Codi ac Offer Codi' mewnol. Ceir rhagor o wybodaeth am y cwrs a sut i gofrestru diddordeb yma: <https://www.aber.ac.uk/en/hse/training/>
- bod dyddiad archwilio offer codi yn cael ei nodi a threfniadau'n cael eu gwneud i unigolyn cymwys gynnal arolygiad a bod yr holl offer codi ar gael i'w arolygu h.y. yn hygyrch ac ati, yn dilyn cyhoeddi dyddiad yr arolygiad, y bydd Rheolwr Cydymffurfiaeth PA yn eich hysbysu amdano o leiaf wythnos ymlaen llaw
- bod unrhyw gamau adferol o ran unrhyw namau a ganfyddir yn ystod archwiliad yn cael eu cyflawni
- bod unrhyw adroddiadau am namau ac ati'n cael sylw priodol gydag offer diffygiol yn cael ei dynnu allan o wasanaeth ar unwaith ac yr adroddir amdano drwy wasanaeth desg gymorth PA
- bod cofnodion o archwiliadau trylwyr o offer codi'n cael eu cadw
- rhaid i'r holl offer codi gael archwiliad gweledol trylwyr a gwiriadau ymarferol cyn dechrau gweithrediadau codi
- rhaid hysbysu Rheolwr Cydymffurfiaeth PA os bwiredir prynu neu logi unrhyw offer a fyddai'n dod dan Reoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER) 1998.

Y Cyfarwyddwr Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylwyr:

- Cyfrifol am ddarparu a chynnal a chadw lifftiau sy'n cludo teithwyr a phob offer codi a gosodiadau sefydlog.
- Atebol am sicrhau bod y canllawiau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G037
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER)	Rhifyn	1
		Dyddiad	Gorffennaf 2022
		Tudalen	5 o 11

- Penodi unigolyn cyfrifol a dirprwyo awdurdod i sicrhau cydymffurfiaeth.

Rheolwr Cydymffurfiaeth PA:

- Cyfrifol am drefnu bod yr holl offer codi y mae'n gwybod amdano'n cael ei archwilio'n drylwyr gan unigolyn cymwys drwy gydol ei oes a bod y canlyniadau'n cael eu cofnodi. Dan y rheoliadau rhaid i'r archwiliad trylwyr fod naill ai o fewn cyfnod sefydlog (chwe mis ar gyfer offer codi i godi personau a chodi ategolion, deuddeng mis ar gyfer offer codi arall) neu'n unol â chynllun archwilio ysgrifenedig a gaiff ei unio gan unigolyn cymwys.
- Cyfrifol am sicrhau bod pob eitem o offer codi yn cael ei nodi a'i chofnodi mewn rhestr ar Planet (Meddalwedd Cynnal a Chadw a ddefnyddir gan y Brifysgol).
- Cyfrifol am hysbysu'r unigolyn cymwys/sefydliad sy'n cynnal yr archwiliadau trylwyr pan gaiff namau a ganfuwyd yn ystod archwiliad trylwyr eu cywiro.
- Rhaid hysbysu cynrychiolydd adrannol o leiaf wythnos ymlaen llaw am fwriad unigolyn cymwys i gynnal archwiliad trylwyr o offer LOLER yn eu hadeilad.
- Rhaid sicrhau bod cofnodion o archwiliadau trylwyr o offer codi yn cael eu cadw am oes yr offer ac o leiaf ddwy flynedd ar ôl yr archwiliad.

Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd:

- Cyfrifol am graeniau, trawstiau I, slingiau, ac eitemau eraill o offer codi a ddarperir ar gyfer yr adeilad yn gyffredinol neu i wasanaethu systemau adeiladu, oni chytunir yn wahanol e.e. safle adeiladu a reolir gan Gontractwr ac nid Prifysgol Aberystwyth. Caiff y rhain eu tagio gyda thag melyn a ddefnyddir i dracio cydymffurfiaeth â gofynion archwilio statudol.

Deiliaid Adeiladau:

- Cyfrifol am gynnal a chadw offer codi a ddefnyddir mewn perthynas â'u hymchwil ac addysgu a allai gynnwys trawstiau I dros fannau llwytho ac ati, a nifer o eitemau bach o efynnau a slingiau.
- Y deiliaid sydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod archwiliadau'r unigolyn cymwys yn cael eu cynnal yn unol â'r Rheoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER), drwy ddarparu'r yswiriant y Brifysgol.

Contract gweithrediadau codi

Pan fydd sefydliad yn mynd i contract gyda chontractwr arbenigol fydd yn ymgymryd â'r gweithrediad codi ar ei ran (h.y. y contractwr yn cynllunio'r codi, yn darparu'r craen a'r gweithredwr, y goruchwyliwr craen, slingwyr a signalwyr), dyletswydd y contractwr yw sicrhau bod y craen yn cael ei gynnal yn briodol, ei archwilio'n drylwyr a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio gyda'r gweithrediad codi'n cael ei gyflawni'n ddiogel

Effaith gwynt cryf

Lle gallai gwynt cryf effeithio ar offer codi a/neu ei lwyth, dylai fod dyfeisiau priodol ar gael ac yn cael eu defnyddio i ganfod sefyllfaoedd peryglus a chaniatáu mesurau i roi'r gorau i ddefnyddio'r offer.

Lle bo'n briodol dylid cynnwys uchafswm cyflymder y gwynt y gellir defnyddio'r offer codi ynddo a dylid cynnwys hyn ar y cyfarwyddiadau defnyddio. Dylai fod mesurau wedi'u sefydlu felly i bennu cyflymder y gwynt a lleihau ei effaith.

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G037
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER)	Rhifyn	1
		Dyddiad	Gorffennaf 2022
		Tudalen	6 o 11

Gall effaith gwynt fod yn berthnasol yn yr awyr agored a dan do. Dylai defnydd a dewis offer ystyried hyn.

Pwy sy'n Unigolyn Cymwys?

Unigolyn sydd â'r wybodaeth, profiad, hyfforddiant, sgil a gallu angenrheidiol i berfformio'r ddyletswydd benodol y mae'r gofyniad yn cyfeirio ato. At ddiben archwilio offer codi'n drylwyr, unigolyn cymwys yw rhywun sydd â gwybodaeth ymarferol a damcaniaethol a phrofiad o'r offer sydd i'w archwilio'n drylwyr fydd yn galluogi'r unigolyn i ganfod namau neu wendidau. Rhaid i'r unigolyn allu ardystio'n hyderus bod yr offer yn rhydd o namau amlwg a'i fod yn addas ym mhob ffordd ar gyfer y ddyletswydd y mae ei angen ar ei chyfer. Dylai Yswirwyr Peirianeg penodedig y Brifysgol gynnal archwiliadau ffurfiol. Ar hyn o bryd, y rhain yw British Engineering Services.

Mae'r term 'unigolyn cymwys' ar gyfer gwneud y cynllunio (gweler yr adran berthnasol isod) yn golygu bod rhaid i'r unigolyn gael y sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i wneud yr asesiad perthnasol o ofynion yr offer codi a ddefnyddir a'r math o dasg a gyflawnir. Mae'r ystyr yn wahanol i'r unigolyn cymwys a grybwyllir uchod yng nghyd-destun archwiliad trylwyr ac arolygu ac mae'n annhebygol o fod yr un person.

Llwyth Gweithio Diogel

Uchafswm y llwyth fel y'i aseswyd gan unigolyn cymwys y gall eitem o offer codi ei godi, ei ostwng neu grogiannu dan yr amodau gwasanaeth penodol. Mae'r llwyth gweithio diogel wedi'i farcio ar yr offer ac yn ymddangos yn y cofnodion statudol.

Darparu Offer sy'n Ddiogel ac yn Addas

Fel cyflogwr mae gan y Brifysgol ddyletswydd i ddarparu offer sy'n ddiogel ac yn addas at y diben y'i bwriedir. Dylai offer newydd gydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Ewropeaidd berthnasol a bod â Datganiad Cydymffurfio EC a nod CE. Dylai offer hŷn gydymffurfio â gofynion cyffredinol Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac unrhyw reoliadau cyfredol a Safonau Prydeinig sy'n gyfredol ar adeg cyflenwi. Mae angen ychwanegu offer newydd i Planet (Meddalwedd Cynnal a Chadw a ddefnyddir gan y Brifysgol) ac unrhyw gofnodion perthnasol eraill. Bydd angen dileu offer sydd wedi'i dynnu o wasanaeth neu sydd wedi methu'r archwiliad hefyd o Planet ac unrhyw gofnodion perthnasol eraill.

Cynllunio Digonol, Goruchwylio a Chyflawni Gweithrediadau Codi'n Ddiogel

Rhaid cynllunio unrhyw weithrediadau codi'n ddigonol. Ar gyfer gweithrediadau arferol bydd cynllun cyffredinol yn ddigonol, ond ar gyfer gweithrediadau arbennig neu gymhleth bydd angen cynllun ysgrifenedig penodol.

Mae darparu'r offer cywir, defnyddio pobl sydd wedi'u hyfforddi'n briodol a dilyn arferion cywir yn rhan hanfodol o unrhyw gynllun. Fodd bynnag, rhaid ystyried llawer o fanylion eraill er mwyn cyflawni'r gweithrediad yn ddiogel, er enghraifft bydd angen gwybod pwysau, siâp a chryfder y llwyth, a yw'r llwyth yn mynd i gael ei droi yn yr awyr, a fydd yn llwyth yn sefydlog pan gaiff ei osod i lawr, a yw'r llawr yn ddigon cryf i gynnal y llwyth. Rhaid hefyd ystyried effaith y gweithrediad codi ar bobl neu weithgareddau eraill, yn ogystal â'r tywydd os yw'r gwaith yn yr awyr agored.

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G037
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER)	Rhifyn	1
		Dyddiad	Gorffennaf 2022
		Tudalen	7 o 11

Hyfforddiant a Defnydd

Fel cyflogwr rhaid i'r Brifysgol sicrhau bod yr offer yn cael ei ddefnyddio'n gywir, a bod gweithredwyr wedi derbyn hyfforddiant priodol i ddefnyddio offer codi ac mewn gweithrediadau codi. Rhaid i'r gweithwyr hwythau ddefnyddio offer y maent wedi derbyn hyfforddiant i'w ddefnyddio yn unig a'i ddefnyddio yn y modd y'u hyfforddwyd. Dylai hyfforddiant i unigolion sy'n defnyddio offer codi ystyried:

- Y defnydd penodol a fwriedir ar gyfer offer codi ac ymhle y gellir dod o hyd i wybodaeth yn ymwneud ag unrhyw lawlyfr priodol.
- Y dulliau cywir o ddefnyddio offer codi. Dylid rhoi rhybuddion ynghylch dulliau defnyddio anghywir ac arferion peryglus, ynghyd ag esboniad o'r canlyniad posibl.
- Adnabod a deall y marciau ar yr offer, gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau y gallai hyn eu rhoi ar y defnyddiwr.
- Y weithdrefn wirio ddyddiol, gan gynnwys unrhyw ofynion a osodir gan y gwneuthurwr, cyflenwr neu unigolyn cymwys.
- Y gwiriadau cyn defnyddio, gan gynnwys amcangyfrif y llwyth ac onglau lle bo'n briodol a nodi namau sylfaenol ar yr offer ynghyd â'r weithdrefn ar gyfer hysbysu amdanynt a'u tynnu ar unwaith o wasanaeth.
- Ardal dan waharddiad y gweithrediad codi ac arwyddion.
- Y dulliau cywir o osod y llwyth, slingiau ac ategolion eraill ar fachyn llwyth y teclyn.
- Y gwiriadau cyn codi.
- Y gweithdrefnau codi a gostwng i'w mabwysiadu. Ar gyfer gweithrediadau codi cymhleth, dylid paratoi cynlluniau gwaith ysgrifenedig sy'n cynnwys diagramau i weithredwyr neu dylent gael eu harddangos yn barhaol yn ardal y gweithrediad codi.
- Y signalau i'w defnyddio pan fydd mwy nag un gweithiwr yn ymwneud â'r gweithrediad codi. Y diffygion posibl a allai godi, sut i dynnu offer yn ôl o wasanaeth a sut i hysbysu am ddiffygion.
- Y gweithdrefnau i'w dilyn ar ôl cwblhau'r gweithrediad codi gan gynnwys y dulliau cywir ar gyfer paratoi eitemau ac ategolion cludadwy i'w trawsgludo a'u storio.
- Y dulliau storio cywir a'r angen i sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu dilyn.
- Y system weithio ddiogel i'w dilyn ac ymhle i gael cyngor os oes amheuaeth.

Dewis Offer Codi Addas

Ffactor Diogelwch

Mae ymarfer da'n golygu y bydd gan unrhyw offer codi ffactor diogelwch digonol wedi'i ymgorffori ym mhob adran wahanol o'r trefniant codi. Argymhellir isafswm ffactor diogelu ar gyfer yr eitem benodol ac ni ddylid lleihau hwn. Mae nifer o ddibenion i ffactor diogelwch, gan gynnwys caniatáu ar gyfer traul, effaith, llwytho dynamig a gorlwytho damweiniol. Fodd bynnag, ni ellir gorbwysleisio bod lwfansau o'r fath yn gyfwng yn unig ac na ddylid byth eu herydu. Dylid bod yn ofalus bob amser i osgoi amgylchiadau a all orlwytho'r offer a dylid bod yn ofalus mewn amgylchiadau lle gallai gorlwytho damweiniol ddigwydd. Mewn achosion eithafol lle mae nifer o amgylchiadau anffafriol yn digwydd ar yr un pryd, gallai arwain at fethu er nad yw'r llwyth nominal a godir yn fwy na llwyth gwaith diogel yr offer. Os yw amgylchiadau o'r fath yn debygol, dylid cyfeirio at unigolyn cymwys fydd yn cynghori a oes angen defnyddio offer â gradd uwch i gyflawni ffactor diogelwch uwch.

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G037
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER)	Rhifyn	1
		Dyddiad	Gorffennaf 2022
		Tudalen	8 o 11

Y Defnydd a Fwriedir

Gellir defnyddio rhai eitemau o offer codi (e.e. trawstiau codi) mewn amrywiol ffyrdd. Mae'n bwysig felly fod gwybodaeth ar y defnydd penodol a fwriedir yn cael ei nodi gan y gwneuthurwr / cyflenwr mewn achosion o'r fath a bod cyngor unigolyn cymwys yn cael ei geisio cyn bod unrhyw newid defnydd yn cael ei awdurdodi.

Cytunedd

Defnyddir nifer o raddau gwahanol o ddeunydd ar gyfer offer codi ac fe welir bod bachau, dolenni, modrwyon a gefynnau'n amrywio'n sylweddol yn eu maint ar gyfer capasiti penodol yn ôl gradd yn deunyddiau a ddefnyddir. Rhaid bod yn ofalus felly i sicrhau bod pob eitem o offer yn eistedd yn gywir ac yn cyd-fynd â'u cymdogion. Lle bo angen, dylid defnyddio dolen neu efin rhyngol i sicrhau hyn.

Marcio, Storio a Thrin

Marcio

Dylid marcio offer sydd wedi'i ddilysu'n foddhaol e.e. prawf straen, ac wedi pasio'r archwiliad trylwyr dilynol â:

- Llwyth Gwaith Diogel
- Marc adnabod i hwyluso archwilio cyfnodol a thrawsgyfeirio at gofnodion eraill
- Unrhyw nodau eraill sy'n ofynnol dan y safon y gweithir iddo a dan ddeddfwriaeth

Os caiff unrhyw rai o'r rhain eu dileu neu os ydynt yn annarllenadwy dylid tynnu'r offer ar unwaith o ddefnydd a'i gyfeirio at unigolyn cymwys i'w ail-ddilysu a'i ail-farcio.

Storio a Thrin

Er mwyn lleihau'r risg o ddifrod neu ddirywiad a all effeithio ar ddiogelwch yr offer i'r isafswm, mae'n hanfodol storio'r offer yn addas pan nad yw'n cael ei ddefnyddio, ac mewn llawer o achosion, ei baratoi i'w storio yn gyntaf.

Mae'r gofynion storio delfrydol yn amrywio yn ôl natur yr offer ond yn gyffredinol dylai'r ardal storio fod yn sych ac yn rhydd o lygredd niweidiol. Ni ddylai gael ei amlygu i eithafion tymheredd na heulwen. Dylid diogelu offer sydd ag edafedd diamddiffyn neu arwynebau beryn a beirianwyd (e.e. bolltiau dolen, gefynnau) a'u trin yn ofalus. Dylid trin offer a gaiff ei ddychwelyd i'r storfa yn wlyb, neu sydd wedi cyffwrdd â sylweddau eraill a all achosi iddo ddirywio, gyda gofal arbennig.

Dylid darparu biniau, rhestlau ac ati a dim ond yr eitemau trymach, mwy cadarn a ddylai gael eu gosod ar lawr mewn ardal storio addas.

Arolygiadau ac Archwiliadau Trylwyr

Arolygiad Gwasanaeth

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G037
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER)	Rhifyn	1
		Dyddiad	Gorffennaf 2022
		Tudalen	9 o 11

Gall offer codi fod yn ddarostyngedig i amgylchiadau gweithrediadol ac amgylcheddol a all effeithio ar ei nodweddion gweithredu diogel. Dan LOLER rhaid cynnal a chadw offer codi yn briodol a rhaid iddo fod yn ddiogel i'w weithredu a'i ddefnyddio ar bob achlysur. I sicrhau bod hyn yn digwydd, dan y rheoliadau, rhaid i offer codi gael ei arolygu ar gyfnodau addas rhwng archwiliadau trylwyr. Dylid rhaglennu arolygiadau gwasanaeth rheolaidd ar adegau priodol i fodloni'r gofyniad cyfreithiol hwn.

Dylid pennu'r cyfnod rhwng yr arolygiadau gwasanaeth yn ôl defnydd, amgylchedd a ffactorau tebyg, ar sail hanes yr offer e.e. gwiriad gweledol bob tro y caiff offer ei ddefnyddio.

Dylai'r arolygiad gwasanaeth gael ei gynnal gan unigolyn cyfrifol a chymwys sy'n gwybod y gofynion.

Arolygiad ac Archwiliad Trylwyr

Dan LOLER rhaid i'r holl offer codi gael ei archwilio'n drylwyr gan unigolyn cymwys drwy gydol ei oes gyda'r canlyniadau'n cael eu cofnodi. Dan y rheoliadau rhaid i'r archwiliad trylwyr fod naill ai o fewn cyfnod sefydlog (chwe mis ar gyfer offer codi i godi pobl a chodi ategolion, deuddeg mis ar gyfer offer codi arall) neu'n unol â chynllun archwilio ysgrifenedig a luniwyd gan unigolyn cymwys. Mae hefyd yn ofyniad cyfreithiol bod offer codi yn cael ei archwilio'n drylwyr gan unigolyn cymwys yn dilyn unrhyw amgylchiadau eithriadol e.e. llwytho sioc annisgwyl sy'n debygol o beryglu diogelwch yr offer. Yn ôl y rheoliadau hefyd rhaid i'r unigolyn cymwys nodi ar yr adroddiad ddyddiad erbyn pryd mae'n rhaid gwneud yr archwiliad nesaf.

Dylid cadw pob cofnod o brawf, archwiliad, arolygiad a chynnal a chadw gan draws-gyfeirio ar gyfer ei arolygu gan yr unigolyn cymwys neu'r Rheoleiddiwr, yn ôl y gofyn.

Cynnal a Chadw

Ceir gofyniad cyfreithiol i gynnal a chadw pob offer a ddarperir i'w ddefnyddio yn y gwaith ac mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer offer codi. Gellir bodloni'r ddyletswydd hon drwy gyflwyno rhaglenni cynnal a chadw rheolaidd, a dylid cofnodi manylion y rhain. Dylid cyflawni cynnal a chadw'n unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr, gan ychwanegu atynt fel bo angen i ystyried yr amgylchiadau gweithredu.

Os caiff offer ei ddatgymalu a'i ailgyfosod, neu os caiff atgyweiriadau eu gwneud, dylai unigolyn cymwys ail-ddilysu'r offer cyn iddo gael ei ddefnyddio eto.

Defnydd Diogel o Offer Codi

Amcan arfer codi da yw sicrhau bod unrhyw lwyth yn ddiogel pan gaiff ei godi a'i fod yr un mor ddiogel yn yr awyr ag y mae ar y ddaear. Mae'r canlynol yn weithdrefn gyffredinol y gellir ei haddasu gan Gyfadranau ac Adranau Gwasanaeth Proffesiynol Prifysgol Aberystwyth ar gyfer unrhyw weithrediadau codi beth bynnag yw'r math o declyn neu'r dull o atodi'r llwyth i'r teclyn. Hefyd, gellir ei defnyddio ar gyfer datblygu/cynorthwyo gydag asesiadau risg ar gyfer codi a chynlluniau codi. Rhaid i bob gweithrediad codi gael ei gyflawni gan bersonél cymwys sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.

- Pennu pwysau'r llwyth a safle ei graidd disgyrchiant mewn perthynas â'r pwyntiau codi. Ym mhob gweithrediad codi, dylid gofalu nad yw'r llwyth a osodir ar unrhyw eitem yn fwy na'i lwyth

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G037
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER)	Rhifyn	1
		Dyddiad	Gorffennaf 2022
		Tudalen	10 o 11

gweithio diogel. Os oes unrhyw ansicrwydd am bwysau'r llwyth neu'r llwyth a osodir ar ran benodol o'r offer, argymhellir bod dyfeisiau synhwyro llwyth yn cael eu defnyddio.

- Penderfynu ar y dull codi a slingio'r llwyth. Dylai'r offer a ddewisir gael ei ddefnyddio ar gyfer y diben penodol y'i cynlluniwyd ar ei gyfer yn unig ac ni ddylid ei addasu ar gyfer unrhyw ddiben arall heb gymeradwyaeth unigolyn cymwys. Dylai'r offer a'r dull y bwriedir ei ddefnyddio fod yn addas i'r llwyth a dylai'r dull o atodi slingiau i'r llwyth a slingiau i'r offer codi fod yn ddiogel. Ni ddylid gorlwytho dim o'r offer codi naill ai gan bwysau'r llwyth na'r dull slingio.
- Rhaid i'r dull slingio sicrhau bod y llwyth yn gytbwys, nad yw'n newid yn ffyrnig neu'n anfwriadol pan gaiff ei godi a'i fod yn parhau mewn cyflwr sefydlog ar bob cam o'r codi. Yn gyffredinol, bydd y llwyth yn siglo a gallai fod yn ansefydlog os ar unrhyw adeg nad yw craidd disgrychiant y llwyth yn fertigol o dan fachyn y craen, neu os yw craidd disgrychiant y llwyth yn uwch na'r pwynt lle mae'r slingiau'n atodi i'r llwyth.
- Rhaid gofalu sicrhau nad yw'r offer codi yn difrodi'r llwyth ac yn yr un modd nad yw'r llwyth yn difrodi'r offer codi. Gan ddibynnu ar y dull slingio a ddewisir, gallai fod angen deunydd pacio rhwng y sling a'r llwyth.
- Dylid archwilio pob offer codi'n ofalus am ddiffygion amlwg bob tro cyn defnyddio.
- Efallai y bydd angen rhaffau neu linellau tag i reoli'r llwyth unwaith y bydd yn yr awyr. Argymhellir hyn yn benodol ar gyfer llwythi hir lle dylid atodi llinellau tag ar un neu'r ddau ben fel bod modd rheoli symud cylchol. Dylai'r llinellau tag fod o hyd digonol fel nad yw'r unigolion sy'n rheoli'r llwyth yn sefyll oddi tano yn ystod y codi. Ni ddylid defnyddio llinellau tag i gydbwyso'r llwyth dan unrhyw amgylchiadau, nac am unrhyw bwrpas arall ar wahân i reoli'r llwyth wrth iddo droi.
- Dylid ystyried unrhyw rwystrau y gallai fod angen eu hosgoi fel ceblau, llinellau uwchben, peipiau neu strwythurau.
- Cyn dechrau'r gweithrediad, dylid paratoi safle glanio addas. Rhaid i'r safle a ddewisir fod yn wastad ac o faint digonol i allu dal pwysau'r llwyth. Dylai'r gweithredwyr fod yn wyladwrs o unrhyw islawr, llawr crog, gwasanaethau tanddaearol a allai effeithio ar allu'r safle glanio i ddal llwyth. Yn ogystal, gallai fod angen darparu padiau glanio addas e.e. trawstiau cynnal i alluogi tynnu'r slingiau o dan y llwyth.
- Sicrhau bod y llwyth yn rhydd i'w godi ac nad oes bolltiau gosod ac ati yn ei atal. Dylid gwahanu seliau neu asiadau, a allai gynnig gwrthiant sylweddol, mewn ffyrdd eraill cyn dechrau codi.
- Sicrhau bod unrhyw rannau rhydd o'r llwyth wedi'u diogelu'n ddigonol, naill ai drwy'r dull slingio neu ddull arall, neu eu tynnu.
- Sicrhau dull clir o gyfathrebu rhwng y gweithredwr sy'n gyfrifol am slingio a gweithredwr y teclyn codi. Signalau llaw yw'r dull gorau, yn enwedig os gallai sŵn amharu.
- Dan unrhyw amgylchiadau ni ddylai neb fod yn agos, o dan nac yn cyffwrdd llwyth sy'n cael ei godi a dylid sefydlu ardaloedd dan waharddiad i sicrhau bod pobl yn cadw'n glir a bod y gofyniad hwn yn cael ei gynnal yn ystod gweithrediadau codi.
- Gyda PHOB gweithrediad codi dylid codi'r llwyth am bellter nominal yn unig yn y lle cyntaf. Mae'r codiad prawf hwn yn gadael i'r gweithredwr wirio ei amcangyfrif o gydbwysedd, sefydlogrwydd a diogelwch cyffredinol y llwyth, mewn sefyllfa gymharol ddiogel. Os canfyddir unrhyw anghysondebau dylid gostwng y llwyth ac addasu'r slingiau. Dylid ailadrodd y codi a'r addasu tan fod y gweithredwr yn fodlon fod y llwyth yn gytbwys, sefydlog a diogel.

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G037
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER)	Rhifyn	1
		Dyddiad	Gorffennaf 2022
		Tudalen	11 o 11

- Wrth ostwng y llwyth, dylid ei stopio ychydig uwchlaw'r safle glanio er mwyn gallu ei bwylo, gwirio ei safle a safle unrhyw bediau glanio a sicrhau bod yr holl bersonél yn glir o'r ardal beryglus. Dylid gostwng y llwyth yn raddol bach i'w safle. Cyn llacio'r slingiau, dylid gwirio bod y llwyth yn ddiogel ac yn sefydlog. Os nad yw, dylid ei godi ychydig i addasu'r blociau glanio ac ati cyn ei ostwng eto. Ni ddylid gostwng y llwyth mewn ffordd sy'n maglu'r slingiau gan y gallai hyn achosi difrod difrifol iddynt.
- Dylai gweithredwyr fod yn ofalus bob amser i beidio â gosod y llwyth i lawr ar eu traed eu hunain na neb arall ac er na ddylent gyffwrdd â'r llwyth, rhaid iddynt sicrhau bod eu dwylo a'u bysedd yn glir fel nad ydynt yn cael eu dal. Yn anffodus, mae'r rhain yn ddamweiniau cyffredin wrth gyflawni'r gweithgaredd hwn. Ar ôl gosod y llwyth yn ofalus a chadarnhau ei fod yn sefydlog, dylai'r gweithredwyr dynnu coesau'r slingiau â llaw.
- Pan fydd y gweithrediadau wedi'u cwblhau rhaid dychwelyd yr holl offer codi i'r storfa.
- Os ydynt i'w defnyddio eto dylid bachu'r slingiau'n ôl i ffitiad y derfynell uchaf fel nad ydynt yn bachu'n ddamweiniol ar wrthrychau gerllaw neu'n taro rhywun.

Rhagor o wybodaeth a Chyfeirnodau

S.I. 1998:2307 Rheoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Codi 1998

Defnydd Diogel o Offer Codi. Rheoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Codi 1998

Cod Ymarfer Cymeradwy L113, HSE Books, 1998. ISBN 978 0 7176 6586 0

Defnydd diogel o Offer Gwaith. Rheoliadau Darparu a Defnyddio Offer Gwaith 1998

Cod Ymarfer Cymeradwy L22 (4ydd Argraffiad), HSE Books, 1998. ISBN 978 0 7176 6619 5

BS7121-1:2016 Cod Ymarfer ar gyfer Defnyddio Craeniau'n Ddiogel

Rheoli ar gyfer ieched a diogelwch (HSG65) 2013, HSE Books, 2013. ISBN 978 0 7176 64566

Cod Ymarfer ar gyfer Defnyddio Offer Codi'n Ddiogel Argraffiad 8 (Diwygiwyd 2015) –

Cymdeithas Peirianwyr Offer Codi

Cysylltwch â Thîm Iechyd a Diogelwch PA yn y lle cyntaf am ragor o wybodaeth: 01970 62 2073 neu hasstaff@aber.ac.uk.